Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol T. Gwynn Jones**
**Llanelian Road**
**Hen Golwyn**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL29 9UA**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol T. Gwynn Jones

Ysgol fabanod ym Mae Colwyn yn awdurdod lleol Conwy yw Ysgol T. Gwynn Jones. Mae 219 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng tair a saith oed, yn cynnwys 48 o ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae'r ysgol yn trefnu ei disgyblion yn chwe dosbarth un oedran, yn ogystal â'r dosbarth meithrin.

Mae tua 23% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 22% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol neu maent yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r awdurdod lleol yn gofalu am ychydig iawn o ddisgyblion yn yr ysgol.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2012. Cynhaliwyd arolygiad blaenorol yr ysgol ym mis Mai 2014.

Mae'r ysgol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â datblygiadau'n ymwneud â diwygio addysg yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol T Gwynn Jones yn ysgol fabanod fywiog sy'n darparu amgylchedd dysgu gofalgar ar gyfer ei disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau dysgu ac yn mwynhau mynychu'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cryf ym mhob un o feysydd cwricwlwm y cyfnod sylfaen ac yn dangos lefelau lles uchel. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio ac yn chwarae gyda'i gilydd yn garedig ac yn llwyddiannus.

Mae athrawon ac arweinwyr wedi creu cwricwlwm ysgogol y mae disgyblion yn ei weld yn ddifyr. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddysgu yn yr awyr agored. Maent yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu'r plentyn cyfan ac yn cydnabod pwysigrwydd datblygu medrau corfforol disgyblion. Er enghraifft, maent yn datblygu rheolaeth disgyblion o'r corff yn effeithiol trwy weithgareddau fel dawnsio, gymnasteg, llifio a morthwylio.

Mae gweledigaeth y pennaeth yn rhoi cyfeiriad pwrpasol ar gyfer cymuned yr ysgol. Mae arweinwyr ac athrawon yn cydnabod pwysigrwydd gweithio tuag at flaenoriaethau gwella fel tîm. Maent yn datblygu medrau a gwybodaeth staff, ac yn ymgysylltu ag ysgolion a chyrff llywodraethol eraill i sicrhau bod hyn yn digwydd yn effeithiol. Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi mewnbwn rhanddeiliaid, fel rhieni a'r corff llywodraethol. Mae'r grwpiau hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Canolbwyntio gweithgareddau hunanwerthuso yn agosach ar fonitro ansawdd ac effaith mentrau newydd

A2 Gwella trefniadau ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth arnynt yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1

A3 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â thasgau yn annibynnol ac yn greadigol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Pan fyddant yn dechrau'r ysgol, mae medrau a dealltwriaeth llawer o ddisgyblion islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd effeithiol tuag at fodloni eu hamcanion personol. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â disgyblion eraill, ac mae ychydig ohonynt yn rhagori ar y disgwyliadau ar gyfer eu hoedran.

Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu effeithiol. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyfoedion yn y dosbarth, gan ateb cwestiynau'n dda. Mae llawer ohonynt yn rhannu eu syniadau a'u profiadau personol yn fedrus. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn esbonio'n ofalus sut gwnaethant adeiladu lloches i anifeiliaid ei ddefnyddio fel cartref yn ystod y gaeaf. Mae llawer ohonynt yn defnyddio geirfa estynedig yn gywir. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth Derbyn yn trafod bywydau anifeiliaid, gan ddefnyddio geiriau fel 'cynefin' a 'nosol' yn gywir.

Ar ddechrau'r cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o lythrennau a seiniau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud pan fydd oedolion yn darllen, ac yn galw'r prif gymeriadau a digwyddiadau mewn storïau i gof yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn gwrando ar stori am yr hydref ac yn ateb cwestiynau'r athrawes yn fanwl yn Gymraeg a Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol iawn at ddarllen. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ddarllen geiriau anghyfarwydd, gan gynnwys gwybodaeth dda am lythrennau a seiniau.

Yn y Meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creu marciau cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dechrau dal pensiliau lliw yn gywir ac yn lliwio siapiau llythrennau yn ofalus. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda mewn ystod eang o arddulliau, er enghraifft wrth ysgrifennu eu newyddion wythnosol ac wrth ysgrifennu llythyrau i ddweud wrth bobl eraill sut i fod yn ecolegol gyfeillgar. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ragweld ac wedyn esbonio beth fydd yn digwydd pan fydd rhew yn cynhesu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg yn gadarnhaol, a defnyddiant y medrau hyn yn dda trwy gydol y cyfnod. Yn y dosbarthiadau Derbyn, mae disgyblion yn ymateb yn effeithiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd. Er enghraifft, maent yn rhoi atebion manwl pan ofynnir iddynt sut mae'r tywydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o batrymau iaith syml yn dda. Er enghraifft, maent yn cyfarch a holi disgyblion a phobl eraill yn hyderus, gan ofyn sut maent y diwrnod hwnnw. Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn dechrau datblygu dealltwriaeth syml o sut i esbonio'r hyn y maent wedi bod yn ei wneud gan ddefnyddio amser y gorffennol, er enghraifft trwy ddweud wrth bobl eraill ble maent wedi bod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn dda. Yn y meithrin, mae llawer ohonynt yn dechrau trosglwyddo medrau mathemategol i weithgareddau chwarae yn hyderus, er enghraifft wrth gyfrif sêr mewn blwch. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrif yn ddibynadwy fesul 2, 5 a 10. Maent yn defnyddio darnau arian yn gywir wrth dalu am eitemau a rhoi newid yn y gornel gartref. Mae llawer ohonynt yn casglu a chofnodi data yn effeithiol, er enghraifft wrth lunio siartiau cyfrif o atebion y dosbarth i gwestiynau am arch-arwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm yn eu gweithgareddau dysgu annibynnol o ddydd i ddydd. Er enghraifft, defnyddiant eu dealltwriaeth o ddiagramau Venn yn effeithiol i ddidoli pryfed yn ôl gwahanol feini prawf yn eu gwaith gwyddoniaeth.

Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio prosesu geiriau yn bwrpasol i gefnogi eu gwaith cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyrau am welliannau yr hoffent eu gweld yn Hen Golwyn. Maent yn deall yn dda sut i raglenni robot syml i symud ar hyd llwybr penodol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn hyderus i sganio gwaith ar y waliau, sy'n eu galluogi i weld disgyblion yn adrodd am yr hyn y maent wedi'i wneud. Maent yn mewngofnodi i raglenni yn hyderus, ac yn mynd at y gwaith y mae eu hathro wedi'i roi yn eu ffeil 'i'w wneud', ac yn ei gwblhau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau pwysig, fel datrys problemau, medrau meddwl a medrau corfforol, yn dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, yn y dosbarth Derbyn, mae disgyblion yn datblygu deheurwydd a chywirdeb corfforol wrth forthwylio tïau pren mewn blociau polystyren. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 1 yn dangos medrau corfforol cryf tra'n balansio, gan neidio o uchder a glanio'n ofalus ar gyfarpar mawr yn y neuadd. Maent yn symud tiwbiau cardfwrdd mawr, blociau trwm a changhennau yn fedrus yn yr awyr agored i greu cuddfan.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn teimlo'n ddiogel yn ei hamgylchedd cynhwysol. Maent yn hapus i drafod unrhyw ofidiau gyda staff, ac yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando arnynt ac yn gweithredu yn unol â'u pryderon a'u hawgrymiadau. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i aros yn ddiogel yn yr ysgol a phan fyddant ar-lein. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn siarad yn hyderus am yr angen i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel rhag pobl nad ydynt yn eu hadnabod. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n heini ac yn gwybod bod ymarfer corff yn dda i'w cyrff. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth Derbyn yn esbonio os ydych yn bwyta 'llysiau iach' y byddwch chi'n byw yn hwy.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn gyson dda y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch at eu cyfoedion yn y dosbarth, staff ac ymwelwyr. Mae bron pob un ohonynt yn ofalgar at ei gilydd, ac yn gweithio a chwarae â'i gilydd yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae 'cyfeillion iard' yn wyliadwrus ar faes chwarae'r ysgol ac yn cynnig cymorth uniongyrchol i unrhyw ddisgyblion sydd eisiau cwmni i chwarae.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Maent yn ymdawelu'n gyflym ar ddechrau gwersi, yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn canolbwyntio ar weithgareddau dysgu annibynnol yn bwrpasol. Mae llawer o ddisgyblion yn wydn ac yn dyfalbarhau'n dda pan fyddant yn wynebu gweithgareddau heriol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn gweithio'n ddiwyd fel grŵp i greu cuddfan yn yr amgylchedd awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn croesawu profiadau newydd yn rhwydd, er enghraifft wrth ddefnyddio llif am y tro cyntaf yn yr 'ystafell STEM'. Mae llawer ohonynt yn trafod eu gwaith gyda'u cyfoedion o'u gwirfodd, ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n fuddiol at eu dysgu trwy gynnig syniadau i gael eu cynnwys yn y themâu tymhorol, fel bod eisiau darganfod mwy am anifeiliaid sydd mewn perygl.

Mae disgyblion â rolau arwain yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif fel aelodau o'r cyngor ysgol a'r Criw Cymraeg. Er enghraifft, mae aelodau o'r cyngor ysgol yn awgrymu elusennau i'w cefnogi ac yn rhoi syniadau gwerth chweil ar sut i wella'r ardaloedd yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae disgyblion yn gwneud cyfraniad cyfyngedig at benderfyniadau am fywyd ehangach yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn cynllunio ac yn cyflwyno ystod ddiddorol o weithgareddau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion a chyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn gweithio gydag oedolion i nodi a dod o hyd i wrthrychau hydrefol yn yr awyr agored, tra bydd disgyblion eraill yn ymarfer defnyddio arian yn ystod chwarae rôl yn y siop. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei wneud, ac maent yn addasu dysgu'n effeithiol ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth neu fwy o her arnynt. Maent yn gofyn cwestiynau yn fedrus, sy'n annog disgyblion i feddwl a datblygu eu hatebion yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn annog disgyblion iau i ymestyn eu hatebion ar lafar ac yn esbonio sut maent yn gwybod bod gwrthrych yn siâp penodol, fel triongl.

Yn ystod gwersi, mae athrawon a chynorthwywyr cymorth yn arsylwi disgyblion yn ofalus wrth iddynt weithio. Maent yn cofnodi cyflawniadau disgyblion yn fuddiol ac mae hyn yn eu galluogi i gynllunio dysgu yn y dyfodol sy'n adeiladu ar fedrau disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion hŷn sy'n eu helpu i ddeall pan fyddant wedi llwyddo. Caiff disgyblion gyfleoedd addas i asesu eu gwaith a'u perfformiad eu hunain, a rhai disgyblion eraill. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn nodi arfer effeithiol ac yn rhoi sylwadau buddiol ar sut gall disgyblion eraill wella eu dawns.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu difyr sy'n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth addas o weithgareddau dysgu i ddatblygu medrau disgyblion yn yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Maent yn canolbwyntio eu dysgu ar ystod o destunau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1, mae disgyblion yn mwynhau dysgu am y tymor yn eu testun ynghylch 'amseroedd sy'n newid' ('times they are a-changing'). Mae'r testunau hyn, sydd wedi eu cynllunio, yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu gwerthfawr ar draws holl feysydd dysgu'r cyfnod sylfaen. Er enghraifft, mae pob un o'r athrawon yn cydnabod

pwysigrwydd datblygu medrau corfforol disgyblion. Maent yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i addysgu'r medrau pwysig hyn, o ddefnyddio gefeiliau, llifiau a morthwylion i neidio a balansio. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfleoedd gwerth chweil i gymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chrefft, ond mae oedolion yn tueddu i strwythuro cyfleoedd i ddisgyblion fod yn greadigol yn ormodol. Mae hyn yn cyfyngu ar annibyniaeth disgyblion a'u cyfleoedd i fod yn ddychmygus.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru. Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r disgyblion yn astudio pobl adnabyddus yn y Gymru gyfoes, fel Tom Jones. Maent yn dysgu am hanes Cymru a lleoedd trwy weithgareddau fel ymweld â Chastell Conwy. Mae disgyblion yn dathlu diwylliant a hanes lleol, yn astudio Hen Golwyn ac yn archwilio gwaith arlunydd lleol.

Mae pob un o'r athrawon yn darparu digonedd o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ar draws pob maes dysgu. Maent yn cynllunio'r gweithgareddau hyn yn ofalus fel bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu ac atgyfnerthu'r medrau y maent wedi eu dysgu yn ystod gweithgareddau â ffocws. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o siapiau a hyd yn llawnach wrth greu amgaeadau â gwiail lliw a ffyn loli. Yn y dosbarthiadau Derbyn, mae disgyblion yn gwella eu dealltwriaeth o lythrennau a'u seiniau cysylltiedig wrth chwilio am enwau anifeiliaid yn yr awyr agored y maent yn eu paru â lluniau penodol. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfleoedd priodol i ddefnyddio eu medrau TGCh. Mae'r rhain yn cefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn dda. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1, defnyddiant apiau yn hyderus i chwarae gemau sy'n gwella eu sillafu. Ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn defnyddio meddalwedd prosesu geiriau i ysgrifennu llythyrau a datblygu dealltwriaeth lawnach o gyfeiriad a phellter wrth raglennu robot bach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n gwerthfawrogi pob un o'r disgyblion a'r oedolion yn fawr. Mae strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn sicrhau safonau uchel o gwrteisi a pharch ar y ddwy ochr yn effeithiol. Mae staff yn gweithredu rhaglen gytûn sydd wedi'i chynllunio i helpu datblygu ymwybyddiaeth emosiynol a medrau rhyngbersonol disgyblion yn gyson dda. Mae hyn yn meithrin hyder, hunan-barch a charedigrwydd disgyblion at bobl eraill yn effeithiol.

Mae staff yn monitro cynnydd pob disgybl yn ddiwyd. Maent yn nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ac yn rhoi cymorth gwerthfawr ar waith ar gyfer llawer o ddisgyblion trwy raglenni ymyrraeth addas sy'n cael eu haddasu i ddiwallu eu hanghenion unigol. Maent yn llunio proffiliau un dudalen ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig sy'n helpu staff i fonitro disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn eu hadolygu'n drylwyr trwy ymgynghori â disgyblion a rhieni. Pan fydd angen, mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau arbenigol yn fuddiol, er enghraifft ar gyfer disgyblion ag anghenion lleferydd ac iaith. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer lleiafrif o ddisgyblion yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 sydd angen cymorth mewn llythrennedd a rhifedd yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd digon effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion emosiynol, cymdeithasol ac anghenion iechyd yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae cyflogi therapydd chwarae

arbenigol yn helpu'r disgyblion sydd fwyaf agored i niwed i deimlo'n hapus a'u bod wedi ymgynefino yn yr ysgol. Mae tîm o gynorthwywyr addysgu ymroddgar yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion sy'n agored i niwed ac yn sicrhau eu bod yn cael gofal da a'u bod yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i sicrhau bod disgyblion yn gallu gwneud dewisiadau synhwyrol am sut i aros yn ddiogel. Mae cyfleoedd yn cynnwys gwersi addysg bersonol am gadw eu hunain yn ddiogel, a sut i aros yn ddiogel ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn iach, ac mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn dysgu am effaith dewisiadau ac ymddygiadau o ran ffordd iach o fyw trwy ystod eang o adnoddau a chyflwyniadau gan ymwelwyr arbenigol, fel aelodau o wasanaeth yr heddlu. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i gynorthwyo disgyblion i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw, er enghraifft trwy ymweld â'r siop bwydydd iach leol i ddysgu am wneud dewisiadau synhwyrol am fwyd a chynaliadwyedd. Mae'r ysgol yn darparu ystod ddefnyddiol o weithgareddau corfforol a chlybiau allgyrsiol ar gyfer disgyblion, er enghraifft jwdo ac athletau. Mae hyn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cadw'n heini.

Ceir trefniadau effeithiol i helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plant gartref. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu sesiynau chwarae a dysgu y gall rhieni eu mynychu i ddysgu sut i ddatblygu ymwybyddiaeth eu plentyn o ffoneg, a gwella eu medrau sillafu a darllen. Mae gan y rhan fwyaf o rieni synnwyr cryf o berthyn i gymuned ysgol ofalgar, sy'n deillio o bolisi drws agored llwyddiannus yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol. Maent yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn elwa ar sesiynau meddylgarwch sy'n eu helpu i feddwl am sut i ddelio â gofidiau. Mae pob un o'r disgyblion a'r staff yn canolbwyntio'n dda ar 'bum ffordd at les' y gwasanaeth iechyd. Mae hyn yn helpu plant ac oedolion i wneud nodyn o sut maent yn teimlo a pha gamau i'w cymryd i aros yn gorfforol ac yn feddyliol iach. Mae athrawon yn annog disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n fodlon helpu pobl eraill. Mae gwaith yr ysgol yn y gymuned yn cyfrannu'n effeithiol tuag at hyn, er enghraifft y côr yn canu ar gyfer pobl y cartref nyrsio lleol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer yr ysgol yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu lefelau uchel o les disgyblion fel sylfaen ar gyfer cynnydd a chyrhaeddiad cryf gan ddisgyblion. Mae'r weledigaeth drosfwaol hon yn llywio proses yr ysgol i wneud penderfyniadau strategol yn effeithiol. Mae wedi cefnogi sefydlu llawer o agweddau buddiol ar ddarpariaeth yr ysgol, fel gwaith y swyddog cyswllt â theuluoedd a'r therapydd chwarae. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol. Mae hi wedi gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn dda ers yr arolygiad diwethaf. Mae ei hymgysylltiad â rhaglenni a sefydliadau cenedlaethol, fel ei hymglymiad â'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, wedi cryfhau gallu'r ysgol i ddatblygu ei harweinwyr ei hun ac wedi helpu ehangu dealltwriaeth staff o ddatblygiadau addysgol presennol.

Mae uwch arweinwyr yn arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol cryf, ac maent yn gweithio'n dda fel tîm. Caiff staff ar bob lefel gyfleoedd pwrpasol i ymgymryd â rolau arwain o ran blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol, er enghraifft datblygu dulliau yn seiliedig ar 'bum ffordd at les'. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel y cwricwlwm newydd i Gymru. Er enghraifft, mae arweinwyr a staff wedi dechrau ystyried yn ofalus sut bydd eu cwricwlwm newydd yn adlewyrchu'r newidiadau sylweddol a fydd yn dod yn sgil y cwricwlwm hwn. Maent wedi ymgysylltu â llywodraethwyr a rhieni yn bwrpasol wrth ystyried sut gallai cwricwlwm ar gyfer disgyblion iau adlewyrchu pedwar diben y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol hanes cryf o welliant, er enghraifft o ran medrau llafaredd gwell, darllen gwell gan fechgyn a chymorth gwell ar gyfer lles disgyblion. Mae blaenoriaethau'r ysgol yn briodol ac yn deillio'n synhwyrol o ganlyniadau prosesau hunanwerthuso'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau dysgu, craffu ar waith disgyblion ac arsylwadau gwersi. Mae staff ar bob lefel yn cyfrannu'n rheolaidd ac yn effeithiol at borth ar-lein sy'n creu darlun o gamau gwella sy'n dod i'r amlwg, sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r prosesau hyn yn rhoi dealltwriaeth gadarn i'r ysgol o'i chryfderau a'i meysydd i'w datblygu ar draws llawer o agweddau ar ei bywyd a'i gwaith. Fodd bynnag, nid yw hunanwerthuso bob amser yn digwydd yn ddigon prydlon ar ôl newid sylweddol yn y ddarpariaeth i wneud yn siŵr ei fod yn cael yr effaith angenrheidiol.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn darparu her adeiladol pan fydd angen. Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn ymgymryd ag ystod addas o weithgareddau monitro i roi gwybodaeth a dealltwriaeth uniongyrchol iddynt o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn defnyddio offeryn hunanwerthuso ar-lein yr ysgol ac mae hyn yn eu helpu i weld darlun sy'n dod i'r amlwg o'r modd y mae staff yn gweithredu o fewn cynllun datblygu'r ysgol, ac effaith hyn ar ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddysgu proffesiynol. Mae uwch staff yn ymgymryd yn bwrpasol â chyfleoedd dysgu proffesiynol, fel hyfforddiant ar gyfer darpar benaethiaid a'r rhaglen datblygu arweinwyr canol. Mae staff yn cynnal ymweliadau ffocysedig â dosbarthiadau ei gilydd ac yn cynllunio gyda'i gilydd yn effeithiol. Mae gan bob un o'r athrawon darged i ymgymryd ag ymchwil mewn meysydd a nodwyd trwy'r broses rheoli perfformiad. Mae hyn yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o ganfyddiadau ymchwil a gwaith mewn ysgolion eraill, ac yn gwneud gwahaniaeth i'r ysgol a'i disgyblion.

Mae'r prif ystafelloedd dosbarth a'r ardaloedd cymunol yn yr ysgol yn lleoedd pleserus a chynhyrchiol ar gyfer addysgu a dysgu, ond mae cyfyngiadau o ran defnydd ac ansawdd gofod ymyrraeth 'ystafell y cefnfor'. Mae bron pob un o'r ystafelloedd dosbarth yn cynnwys mynediad addas i ardaloedd awyr agored eithaf datblygedig.

Mae cysylltiadau clir rhwng blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol a phenderfyniadau am wariant. Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth ddenu cyllid ychwanegol sylweddol, er enghraifft trwy ymglymiad y pennaeth yn yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Mae'r ysgol wedi symud oddi wrth ddiffyg sylweddol bum mlynedd yn ôl at warged sylweddol. Mae cronfeydd wrth gefn yr ysgol yn gymharol uchel, ond mae cynlluniau datblygedig i leihau'r rhain yn ystod y

flwyddyn, yn bennaf trwy ddatblygu ardaloedd awyr agored ymhellach. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o'r grant datblygu disgyblion. Mae llawer o'r gwaith a ariennir yn canolbwyntio ar ddatblygu lles disgyblion, er enghraifft trwy therapi chwarae a gwaith cyswllt â theuluoedd. Rhoddir pwyslais addas hefyd ar ddatblygu medrau iaith disgyblion, yn enwedig eu siarad a'u gwrando. Fodd bynnag, nid yw'r blaenoriaethau yn cysylltu'n ddigonol â gwelliannau yng nghyrhaeddiad y disgyblion targedig.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2020